COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 6 Chwefror 2001
**Amser:** 9.00am
**Lle:** Ystafell y Llywydd (A3.13)

**Presennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
John Lloyd, Clerc y Cynulliad
Paul Silk, Darpar Glerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Mynegodd y Dirprwy Lywydd ei ddiolch i Kirsty Williams am gadeirio'r Pwyllgor yn ei absenoldeb yr wythnos ddiwethaf.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

**BC22-01 (terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu gwedd derfynol. Awgrymwyd gwelliant bach a fyddai'n cael ei ymgorffori cyn eu cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC32-01 (drafft)**

2.2 Cafodd y cofnodion eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Awgrymwyd mân welliannau a fyddai'n cael eu cynnwys yn y fersiwn terfynol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi

3.1 **Paragraff 3.2 –** Roedd y Rheolwyr Busnes wedi bod yn ystyried trefniadau'r Cynulliad ar gyfer dadlau materion rhyngwladol. Cytunodd y Rheolwyr Busnes fod y gweithdrefnau presennol h.y.y dadleuon byr a'r datganiadau yn foddhaol. Nodwyd y byddai gweithdrefnau Adolygu'r Cynulliad yn rhoi sylw i'r mater hwn.

3.2 **Paragraff 6.3 –** Dywedodd y Trefnydd fod yn rhaid i'r Cabinet ystyried y papur ar ddadleuon ar adroddiadau pwyllgorau pwnc (BC29-01). Cynigiodd roi adborth o farn y Cabinet yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Y Trefnydd**

## 4. Is-ddeddfwriaeth

### Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC34-01 a oedd yn darparu cyngor gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig ynghylch peidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y drefn Garlam.
**Yn dilyn hynny penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

### Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC35 a oedd yn darparu cyngor gan Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig ynghylch peidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol.
**Yn dilyn hynny penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

### Rheoliadau Taliadau Cymunedol, y Dreth Gyngor ac Ardrethu Annomestig (Gorfodi) (Llysoedd Ynadon) (Cymru) 2001

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC36-01 a oedd yn darparu cyngor gan Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig ynghylch peidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

### Gorchymyn Cynllun Datblygu'r Diwydiant Moch (Cadarnhau) 2001

4.4 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC37-01 a oedd yn darparu cyngor gan Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig ar y gorchymyn uchod a wnaed ar y cyd â Lloegr a'r Alban o dan Reol Sefydlog 23. Nodwyd y gellir cyflwyno'r gorchymyn gerbron y Cyfarfod Llawn gan ddefnyddio naill ai'r weithdrefn Safonol neu Garlam ond ni ellid ei ddiwygio. Cytunodd y Pwyllgor y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol a nododd nad oedd yn ofynnol i'r Dirprwy

Lywydd wneud penderfyniad ynghylch a ddylid ei gyfeirio at y pwyllgor pwnc ai peidio.

4.5 Roedd y Pwyllgor wedi gwahodd Winston Roddick, y Cwnsler Cyffredinol, i fod yn bresennol yn y Pwyllgor Busnes i drafod cyhoeddi'r holl is-ddeddfwriaeth a'i fod ar gael ar safleoedd ar y we. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl iddo fod yn bresennol oherwydd ymrwymiad blaenorol. Cytunwyd i ofyn iddo fynychu cyfarfod yr wythnos nesaf ac y dylai ddarparu papur ymlaen llaw i'w ystyried gan y Pwyllgor. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i hysbysu Winston Roddick**

4.6 Dywedodd Y Trefnydd y byddai'n cyflwyno papur gwybodaeth ar gyfer cyfarfod yr wythnos nesaf ar yr is-ddeddfwriaeth a gyflwynir cyn yr haf. **Gweithredu: Y Trefnydd**

4.7 Cytunodd Y Trefnydd i edrych ar ba bryd y byddai gorchymyn Rheol Sefydlog 29 (gorchmynion Rhan 7 yn flaenorol) a gynigiwyd gan Brian Hancock yn cael ei ystyried gan y Cynulliad. **Gweithredu: Y Trefnydd**

4.8 Cododd y Dirprwy Lywydd y posibilrwydd bod yr holl Aelodau (nad oeddynt yn rhan o'r Cabinet) yn gallu cyflwyno un gorchymyn Rheol Sefydlog 29 yr un yn ystod sesiwn pedair blynedd y Cynulliad. Derbyniodd bod angen cael cydbwysedd rhwng democratiaeth hollol gyfranogol a chreu baich anhydrin ar y Weinyddiaeth. Dywedodd Jocelyn Davies fod y trefniadau presennol yn gymhleth ac yn golygu llawer o waith i'r aelod fyddai'n ennill y bleidlais. Dywedodd Kirsty Williams y byddai'r Adolygiad o Weithdrefn y Cynulliad yn edrych ar y mater hwn.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

5.1 Dim.

## 6. Pwyllgorau

6.1 Dim.

## 7. Busnes i ddod

### Busnes yr wythnos hon

7.1 Dywedodd Y Trefnydd y byddai'r Prif Weinidog yn gwneud datganiad yn ddiweddarach ar y swyddi a grëwyd yn ffatri Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr. O gofio'r moratoriwm y cytunwyd arno am ddwy wythnos rhwng Corus a'r undebau llafur, cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'n briodol i'r Weinyddiaeth wneud dau ddatganiad ar y diwydiant dur yn ddiweddarach – un gan Mike German ar ei drafodaethau gyda Thîm Cymru a'r llall gan Edwina Hart ar ei thrafodaethau â chyd-weithwyr yn Whitehall. Unwaith y byddai'r moratoriwm wedi dod i ben, byddent yn disgwyl i'r Weinyddiaeth gyflwyno cynnig y gellid ei ddiwygio a'i ddadlau yn llawn. Dywedodd y Gwrthbleidiau fod eu Haelodau yn annhebygol o siarad i'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau

Sefydlog ac i gymeradwyo is-ddeddfwriaeth fel y gellid neilltuo awr a hanner ar gyfer y ddadl ar setliad llywodraeth leol. Mynegodd y Gweinidog ei ddiolch i'r Rheolwyr Busnes am eu cydweithrediad wrth ymdrin â busnes ers y cyhoeddiad gan Corus. Cadarnhaodd y byddai dadl plaid leiafrifol Plaid Cymru a ohiriwyd yn cael ei haildrefnu cyn gynted â phosibl..

7.2 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r datganiad busnes drafft (BC38-01).

**Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn ar 12 a 26 Chwefror a 5 Mawrth 2001**

7.3 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd am ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn ar 12 a 26 Chwefror a 5 Mawrth oedd y dylai fynd ymlaen yn unol â'r amlinelliad yn y datganiad busnes drafft.

7.4 Gofynnodd Jocelyn Davies am eglurhad ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer y ddadl ar araith y Frenhines a drefnwyd ar gyfer 1 Mawrth. Cytunodd Y Trefnydd i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Y Trefnydd**

7.5 Gofynnodd Y Trefnydd i'r Rheolwyr Busnes ystyried a ddylid symud y ddadl fer o 1 Mawrth i wneud ffordd i ymweliad swyddogol Bertie Ahern, 'Taoiseach' Llywodraeth Iwerddon. Gofynnwyd iddynt hefyd ystyried awgrymiadau ar gyfer y ddadl ar Ddydd Gwyl Dewi ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes**

7.6 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r weithdrefn o ofyn cwestiynau ar ôl datganiadau gan y Cabinet a'r weithdrefn wrth ymdrin â chyfraniad y Weinyddiaeth yn ystod dadl blaid leiafrifol yn ddiweddar. Cytunwyd y byddai croeso i fwy o eglurder ynghylch y gweithdrefnau, er yn cydnabod awdurdod y Llywydd wrth gadeirio'r trafodion. Byddai'r Dirprwy yn ystyried y mater gyda'r Llywydd yng ngoleuni cytundebau blaenorol y Pwyllgor Busnes ac arweiniad cyfredol, ac yn adrodd yn ôl. **Gweithredu: Y Dirprwy Lywydd**

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfod Llawn**

8.1 Dim.

**9. Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog**

9.1 Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i bapur BC20-01 ar gynigion ynghylch diwygio'r adran Dehongli yn y Rheolau Sefydlog i gydnabod y term "Gweinidog". Cytunwyd nad oedd y diwygiad yn angenrheidiol. Byddai'r term yn parhau i gael ei ddefnyddio fel teitl o ran cwrteisi.

**10. Dyfarniadau gan y Llywydd**

10.1 Dim.

## 10. Unrhyw fusnes arall

10.1 Dim.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**